RHAN 4.5 - RHEOLAU GWEITHDREFN CRAFFU

1. **Beth fydd y nifer a'r trefniadau ar gyfer pwyllgorau craffu?**

Bydd gan y Cyngor y pwyllgorau craffu gyda'r aelodaeth, pwerau a'r cylch gwaith a gyflwynir yn Erthygl 6.

2. **Pwy all eistedd ar bwyllgorau craffu?**

Gall pob Cynghorydd ac eithrio aelodau'r Bwrdd Gweithredol fod yn aelodau o bwyllgor craffu. Ond ni all unrhyw aelod fod yn ymwneud â chraffu ar benderfyniad y mae ef/hi wedi bod â chysylltiad uniongyrchol ag ef.

3. **Y rhai a gyfetholir**

Bydd gan bob pwyllgor craffu hawl i argymell i'r Cyngor benodi nifer o bobl fel rhai a gyfetholir nad ydynt yn cael pleidleisio os bernir bod hynny'n briodol.

Wrth gyflawni ei swyddogaethau trosedd ac anhrefn, gall y Pwyllgor Craffu Cyfiawnder Cymdeithasol, Troseddau ac Anhrefn gyfethol swyddogion, gweithwyr neu aelodau o Awdurdodau sydd â Chyfrifoldeb neu Bobl neu Gyrff sy'n Cydweithredu (fel y diffinnir gan Adran 5 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998). Ni all y rhai a gyfetholir fod yn aelodau o Fwrdd Gweithredol y Cyngor ac nid oes hawl i bleidleisio gan unrhyw un a gyfetholir. Gall y rhai a gyfetholir gael eu penodi ar gyfer mater neu fath o fater penodol a gall y Pwyllgor atal eu haelodaeth ar unrhyw adeg.

4. **Cynrychiolwyr addysg**

Bydd pob pwyllgor craffu perthnasol sy'n ymdrin â materion addysg yn cynnwys o fewn ei aelodaeth y cynrychiolwyr pleidleisio canlynol:

(a) un cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru;
(b) un cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig Rufeinig;
(c) tri chynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr.

Mae pwyllgor craffu perthnasol yn y paragraff hwn yn bwyllgor craffu awdurdod addysg lleol, lle mae swyddogaethau'r pwyllgor yn ymwneud yn gyfan gwbl neu yn rhannol ag unrhyw swyddogaethau addysg sy'n gyfrifoldeb gweithrediaeth yr awdurdod. Os yw'r pwyllgor craffu yn ymdrin â materion eraill, ni fydd y cynrychiolwyr hyn yn pleidleisio ar y materion eraill hynny ac ni allant fynychu ond fel aelodau wedi eu cyfethol o'r pwyllgor yn unig i drafod y materion eraill hynny os gwahoddir hwy i wneud hynny.

5. **Cyfarfodydd y pwyllgorau craffu**

Cynhelir o leiaf 6 o gyfarfodydd cyffredin o bob pwyllgor craffu bob blwyddyn. Yn ychwanegol, gellir galw cyfarfodydd anghyffredin o bryd i'w gilydd fel a phan fo hynny'n briodol. Gellir galw cyfarfod o bwyllgor craffu gan Gadeirydd y pwyllgor craffu perthnasol, gan fwyafrif o aelodau'r pwyllgor neu gan y Prif Weithredwr os bydd ef/hi yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol neu yn briodol.

Bydd y Pwyllgor Craffu Cyfiawnder Cymdeithasol, Troseddau ac Anhrefn yn cwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn i adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed a chamau a gymerwyd gan yr awdurdodau sydd â chyfrifoldeb mewn perthynas â'u swyddogaethau trosedd ac anhrefn.

6. **Cworwm**

Bydd y cworwm ar gyfer pwyllgor craffu yn drydedd ran o'r Aelodau wedi'i thalgrynnu i'r rhif cyfan nesaf i fyny.

7. **Pwy sy'n cadeirio cyfarfodydd pwyllgorau craffu?**

Daw Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion pwyllgorau craffu o blith y Cynghorwyr sy'n eistedd ar y pwyllgor, a byddant yn cael eu penodi gan y Cyngor yn ei gyfarfod blynyddol yn unol â'r weithdrefn a nodir yn rheolau Gweithdrefn y Cyngor yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.

8. **Rhaglen waith**

Cyn belled ag y cydgysylltir yr ymarferiad yn gyffredinol gan y Pwyllgor Craffu Corfforaethol er mwyn osgoi dyblygu adnoddau, bydd y pwyllgorau craffu yn gyfrifol am osod eu rhaglen waith eu hunain.

9. **Eitemau ar yr agenda**

Bydd gan unrhyw aelod o bwyllgor craffu hawl i roi rhybudd i'r Prif Weithredwr ei fod ef/bod hi yn dymuno i eitem sy'n berthnasol i swyddogaethau'r pwyllgor gael ei chynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfod o'r pwyllgor a'i thrafod ynddo. Ar ôl derbyn cais o'r fath bydd y Prif Weithredwr yn sicrhau ei bod yn cael ei chynnwys ar yr agenda nesaf sydd ar gael.

Gall unrhyw aelod o'r Cyngor gyfeirio mater trosedd ac anhrefn lleol (fel y diffinnir gan Adran 19 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006) at y Pwyllgor Craffu Cyfiawnder Cymdeithasol, Troseddau ac Anhrefn i'w gynnwys ar yr agenda a'i drafod mewn cyfarfod o'r Pwyllgor.

10. **Adolygu polisïau**

(a) Cyflwynir swyddogaeth y pwyllgorau trosolwg a chraffu mewn perthynas ag adolygu Cyllideb a Fframwaith Polisi'r Cyngor yn fanwl yn Rheolau Gweithdrefn y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi.

(b) Mewn perthynas â datblygu agwedd y Cyngor at faterion eraill nad ydynt yn ffurfio rhan o'i Gyllideb a'i Fframwaith Polisi, gall pwyllgorau craffu wneud argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol ar gyfer datblygiadau i'r graddau y maent yn ymwneud â materion o fewn eu cylch gwaith.

11. **Adroddiadau oddi wrth y pwyllgorau craffu**

Cyn gynted ag y bo wedi ffurfio argymhellion ynghylch cynigion ar gyfer adolygu, bydd y pwyllgor craffu yn paratoi adroddiad ffurfiol a'i gyflwyno i'r Prif Weithredwr i'w ystyried gan y Bwrdd Gweithredol os yw'r argymhellion yn gydnaws â'r gyllideb a'r fframwaith polisi presennol, neu i'r Cyngor fel y bo'n briodol e.e. pe bai'r argymhelliad yn golygu gwyro oddi wrth neu newid i'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi a gytunwyd.

12. **Sicrhau bod adroddiadau craffu yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Gweithredol**

Cyn gynted ag y bo pwyllgor craffu wedi cwblhau ei drafodaethau ar unrhyw fater bydd yn anfon copi o'i adroddiad terfynol ymlaen at y swyddog priodol a fydd yn ei ddosrannu naill ai i'r Bwrdd Gweithredol neu'r Cyngor neu i'r ddau ei ystyried, yn ôl a fyddai cynnwys yr adroddiad â goblygiadau ar gyfer cyllideb a fframwaith polisi'r Cyngor ai peidio
. Os cyfeiria'r swyddog priodol y mater at y Cyngor, bydd ef/hi yn rhoi copi i'r Arweinydd gyda rhybudd fod y mater i'w gyfeirio at y Cyngor.

Bydd gan y Bwrdd Gweithredol bedair wythnos i ymateb i'r adroddiad craffu, ac ni fydd y Cyngor yn ei ystyried o fewn y cyfnod hwnnw. Pan fo'r Cyngor yn cyfarfod i ystyried unrhyw fater a gyfeiriwyd oddi wrth bwyllgor craffu a fyddai'n effeithio ar y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi, bydd hefyd yn ystyried ymateb y Bwrdd Gweithredol i argymhellion y pwyllgor craffu. Dim ond un adroddiad bob blwyddyn y gellir ei gyflwyno gan bob pwyllgor craffu i'r Bwrdd Gweithredol.

13. Y Pwyllgor Craffu Cyfiawnder Cymdeithasol, Troseddau ac Anhrefn yn arfer pwerau mewn perthynas â Swyddogaethau Trosedd ac Anhrefn

Nid yw paragraffau 10, 11 a 12 uchod yn berthnasol yn y sefyllfa hon.

Gall y Pwyllgor hwn adolygu a chraffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau eraill a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau trosedd ac anhrefn gan awdurdodau sydd â chyfrifoldeb dan Adrannau 5 a 6 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Gall y Pwyllgor gyflwyno adroddiadau neu argymhellion i'r Cyngor llawn neu'r Bwrdd Gweithredol mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau trosedd ac anhrefn, ac yn yr achos hwnnw mae'n rhaid iddo roi copi i bob un o'r awdurdodau sydd â chyfrifoldeb a'r bobl a'r cyrff hynny sy'n cydweithredu y cyfeirir atynt yn y Ddeddf.

Yn ogystal, mae'n rhaid i'r Pwyllgor ystyried unrhyw fater trosedd ac anhrefn lleol (fel y diffinnir gan Adran 19 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006) a gynhwysir ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod lle mae'r mater wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor gan aelod o'r Cyngor. Mae'n rhaid iddo ystyried a fydd yn cyflwyno adroddiad neu argymhellion i'r Cyngor llawn a/neu'r Bwrdd Gweithredol mewn perthynas â'r mater trosedd ac anhrefn lleol hwnnw, gan roi ystyriaeth i unrhyw sylwadau a wnaed gan yr aelod dan sylw. Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu na fydd yn cyflwyno adroddiad neu argymhellion, mae'n rhaid iddo roi gwybod i'r aelod dan sylw am ei benderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad. Os bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad neu argymhellion i'r Cyngor llawn a/neu'r Bwrdd Gweithredol, yna mae'n rhaid iddo roi copi o'r adroddiad neu'r argymhellion i'r aelod dan sylw ac i'r awdurdodau sydd â chyfrifoldeb a'r bobl neu'r cyrff sy'n cydweithredu, yn ôl yr hyn a dybia'n briodol.

Pryd bynnag y bydd y Pwyllgor yn rhoi copi o adroddiad neu argymhellion i awdurdod sydd â chyfrifoldeb neu berson neu gorff sy'n cydweithredu, mae'n rhaid iddo atgoffa'r awdurdod/corff hwnnw o'i ddyletswydd statudol i roi ystyriaeth i'r adroddiad neu'r argymhellion wrth arfer ei swyddogaethau, ystyried yr adroddiad neu'r argymhellion ac ymateb i'r Pwyllgor gan nodi pa gamau (os oes rhai) y mae'r person neu'r corff hwnnw yn bwriadu eu cymryd.

13. **Hawliau aelodau pwyllgorau craffu i ddogfennau**

Yn ychwanegol at eu hawliau fel Cynghorwyr, mae gan aelodau'r pwyllgorau craffu yr hawl ychwanegol i ddogfennau, ac i rybudd o gyfarfodydd fel y'u cyflwynwyd yn y Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

Wrth ymdrin â materion trosedd ac anhrefn, mae gan y Pwyllgor Craffu Cyfiawnder Cymdeithasol, Troseddau ac Anhrefn hawl i wybodaeth oddi wrth Awdurdodau sydd â Chyfrifoldeb a phobl a chyrff sy'n cydweithredu (fel y diffinnir gan Adran 5 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998) ar ôl cyflwyno cais ysgrifenedig. Bydd y wybodaeth a ddarperir fel arfer yn amhersonol ac ni fydd yn cynnwys gwybodaeth sy'n debygol o niweidio achosion cyfreithiol neu weithrediadau presennol neu yn y dyfodol.

14. **Aelodau a swyddogion yn rhoi cyfrif**

(a) Gall unrhyw bwyllgor craffu adolygu a chraffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r Cyngor a/neu'r Bwrdd Gweithredol. Yn ogystal ag adolygu dogfennaeth, wrth gyflawni'r swyddogaeth craffu, gall ei gwneud yn ofynnol i unrhyw aelod o'r Bwrdd Gweithredol, pennaeth y gwasanaeth taledig, a/neu unrhyw gyfarwyddwr a/neu bennaeth gwasanaeth ddod o'i flaen i egluro mewn perthynas â materion o fewn eu cylch gorchwyl:

i) unrhyw benderfyniad arbennig neu gyfres o benderfyniadau; a/neu
ii) i ba raddau y mae'r camau a gymerwyd yn gweithredu polisi'r Cyngor; a/neu
iii) eu perfformiad,

a dyletswydd y bobl hynny yw mynychu os yw hynny'n ofynnol.

(b) Lle bo'n ofynnol i unrhyw aelod neu swyddog fynychu pwyllgor craffu o dan y ddarpariaeth hon, bydd Cadeirydd y pwyllgor hwnnw yn hysbysu'r Prif Weithredwr a fydd yn hysbysu'r aelod neu'r swyddog yn ysgrifenedig gan roi o leiaf 15 o ddyddiau gwaith o rybudd o'r cyfarfod y mae'n ofynnol iddo ef/iddi hi ei fynychu. Bydd y rhybudd yn nodi natur yr eitem y mae angen iddo ef/iddi hi fynychu yn ei chylch i roi cyfrif a ph'un a oes angen cynhyrchu unrhyw bapurau ar gyfer y pwyllgor. Lle bydd y cyfrif i'w roi i'r pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchu adroddiad, yna bydd yr aelod neu'r swyddog dan sylw yn cael 15 o ddyddiau gwaith ychwanegol i ganiatáu ar gyfer paratoi'r ddogfennaeth honno.

(c) Lle, mewn amgylchiadau eithriadol, mae'r aelod neu'r swyddog yn methu â mynychu ar y dyddiad dan sylw, yna bydd y pwyllgor craffu drwy ymgynghori â'r aelod neu'r swyddog yn trefnu dyddiad cyfleus arall i fynychu.

Wrth ymdrin â materion trosedd ac anhrefn, gall y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol, Troseddau ac Anhrefn ei gwneud yn ofynnol i swyddog neu weithiwr Awdurdod sydd â Chyfrifoldeb neu berson neu gorff sy'n cydweithredu fynychu i ateb cwestiynau, ar ôl rhoi rhybudd rhesymol.

15. **Presenoldeb Swyddogion mewn cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu**

Fel arfer dylai Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth fynychu Pwyllgorau Craffu i ymateb i gwestiynau, i egluro polisïau a gweithdrefnau ac yn gyffredinol i gynrychioli'r gwasanaethau y maent hwy'n gyfrifol amdanynt ac yn atebol iddynt. Hefyd gall swyddogion adrannol eraill fynychu a gallant gael eu galw o bryd i'w gilydd i ddarparu gwybodaeth ac i ymateb i gwestiynau a ofynnir iddynt gan aelodau**.**

16. Presenoldeb eraill

Gall pwyllgor craffu wahodd cynrychiolwyr o gyrff eraill i'w annerch ac i drafod materion o bryder lleol a/neu ateb cwestiynau.

17. **Galw i mewn**

Mae'r drefniadaeth ar gyfer galw-i-mewn wedi'u nodi yn Erthygl 6 o'r Cyfansoddiad – Pwyllgorau Craffu.

18. **Chwip y blaid**

Wrth ystyried unrhyw fater lle mae aelod o bwyllgor craffu yn ddarostyngedig i chwip plaid, rhaid i'r aelod ddatgan presenoldeb y chwip a'i natur, cyn dechrau trafodaethau'r pwyllgor ar y mater. Bydd y datganiad, a manylion y trefniadau chwipio, yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod.

19. **Gweithdrefn mewn cyfarfodydd pwyllgorau craffu**

(a) Bydd pwyllgorau craffu yn ystyried y busnes canlynol ond bydd y Prif Weithredwr yn trefnu'r eitemau ar yr agenda er mwyn rhoi blaenoriaeth i faterion sy'n gofyn am benderfyniadau:

- i) Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf
- ii) datganiadau o fuddiant (gan gynnwys datganiadau chwipio);
- iii) ystyriaeth o unrhyw fater a gyfeiriwyd at y pwyllgor am benderfyniad mewn perthynas â galw penderfyniad i mewn;
- iv) ymatebion y Bwrdd Gweithredol i adroddiadau'r pwyllgor craffu; a
- v) y busnes a gyflwynwyd fel arall ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod.

(b) Lle bo'r pwyllgor craffu yn cynnal adolygiadau neu yn ystyried materion eraill, gall y pwyllgor hefyd ofyn i gynrychiolwyr allanol megis cynrychiolwyr o sefydliadau partner allweddol neu gyrff allanol eraill fynychu i roi tystiolaeth mewn cyfarfodydd pwyllgor sydd i gael eu cynnal yn unol â'r egwyddorion canlynol:

- i) bod yr adolygiad yn cael ei gynnal yn deg a bod holl aelodau'r pwyllgor yn cael cyfle i ofyn cwestiynau i'r rhai sy'n mynychu, a chyfrannu a siarad;
- ii) bod y rhai hynny sy'n cynorthwyo'r pwyllgor drwy roi tystiolaeth yn cael eu trin gyda pharch a chwrteisi; a
- iii) bod yr adolygiad yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod y proses mor effeithlon â phosibl.

(c) Yn dilyn unrhyw adolygiad, bydd y pwyllgor yn paratoi adroddiad byr, i'w gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol a/neu'r Cyngor fel y bo'n briodol a bydd yn gwneud ei adroddiad a'i gasgliadau yn gyhoeddus.

20. **Materion o fewn cylch gorchwyl mwy nag un pwyllgor craffu**

Lle bo mater i'w ystyried gan bwyllgor craffu yn dod o fewn cylch gorchwyl un neu fwy o bwyllgorau craffu eraill hefyd, bydd y penderfyniad ynghylch pa bwyllgor craffu a fydd yn ei ystyried yn cael ei ddatrys gan y Pwyllgor Craffu Corfforaethol.